



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymgynghoriad cyhoeddus

Diwygiad Lwfans

Byw i'r Anabl

Crynodeb Gweithredol

Rhagair Gweinidogol

Mae'r Llywodraeth Clymblaid yn ymrwymedig i helpu pobl anabl i ymarfer dewis a rheolaeth ar eu bywydau. Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn ein helpu i drosglwyddo'r ymrwymiad hwn.

Rydym wedi bod yn berffaith eglur fod ein cynlluniau diwygio lles wed eu cynllunio i ddiogelu pobl sydd yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus, yn cynnwys pobl anabl. Rydym yn ymrwymedig i system gynaliadwy a theg sy'n galluogi pobl i weithio pryd y gallant ac yn darparu cymorth diamod i'r rhai sy'n methu gweithio. Fel yr ydym yn symud tuag at ddeddfwriaeth i a gweithredu diwygiad sylweddol drwy Gredyd Cyffredinol ac ein Rhaglen Gwaith blaenllaw, rwy'n credu ei bod hi'n amser hefyd i ddod a budd-daliadau anabl i'r 21ain Ganrif.

Rydym yn gadarn yn ein cefnogaeth i'r egwyddorion Lwfans Byw i'r Anabl, fel budd-dal arian prawf modd yn cyfrannu i'r costau ychwanegol gafwyd gan bobl anabl. Fodd bynnag, rydym angen sicrhau fod y budd-dal yn adlewyrchu anghenion pobl anabl heddiw, yn hytrach nag yn y 1990au. Mae'n amser ein bod yn cael budd-dal anabl sy'n haws i unigolion i'w ddeall ac sy'n darparu meini prawf eglur a dyfarniadau cyson.

Dyma pam rwyf eisiau rhoi budd-dal newydd yn lle Lwfans Byw i'r Anabl - Taliad Annibyniaeth Bersonol. Dyma ein cyfle i wella'r gefnogaeth i bobl anabl a'u galluogi i fyw bywydau llawn, actif ac annibynnol yn well. Bydd Taliad Annibyniaeth Bersonol yn cynnal prif egwyddorion o Lwfans Byw i'r Anabl, yn darparu cefnogaeth ariannol i helpu i ddod dros rwystrau sydd yn eu rhwystro rhag cymryd rhan yn llawn mewn bywyd pob dydd, ond bydd yn cael ei ddarparu mewn dull tecach, mwy cyson a chynaliadwy. Yn wir dylai cefnogaeth gael ei dargedu at y rhai pobl anabl hynny sy'n wynebu'r sialensau fwyaf i ddilyn bywydau annibynnol a bydd y diwygiad hwn yn galluogi hyn yn ogystal â phroses asesiad cliriach a symlach.

Bydd Taliad Annibyniaeth Bersonol yn fudd-dal mwy deinamig - bydd yn cymryd i ystyriaeth newidiadau mewn amgylchiadau unigol ac effaith anabledau yn ogystal â newidiadau eangach mewn cymdeithas, fel agweddau cymdeithasol a deddfwriaeth cydraddoldeb.

Fe ag yr ydym yn ymrwymedig i ddarparu cefnogaeth ddiamod i'r rhai sy'n methu gweithio, rydym yn gwybod mai gwaith yw'r ffordd orau o les i'r rhai sy'n methu gwneud hynny. Dyna pam rwyf eisiau cymaint o bobl a phosib i gael budd o weithio - nid yw'n dderbyniol i unrhyw un gael ei ddal mewn cylch o ddibyniaeth. Drwy roi'r lefel gywir o gefnogaeth drwy Daliad Annibyniaeth Bersonol, rwy'n gobeithio y bydd llawer mwy o bobl anabl yn gallu gweithio ac yn mwynhau manteision y gall bywyd actif ei ddod.

Dyma pam rwy'n credu mai dyma'r amser i ddiwygio Lwfans Byw i'r Anabl. Rydym angen creu budd-dal galluogi, mwy actif newydd y gall pobl Prydain fod yn falch ohono - budd-dal addas ar gyfer Canrif 21ain..



Maria Miller AS

Is Ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Gweinidog Pobl Anabl

Pwrpas y ddogfen ymgynghori

Mae'r Llywodraeth yn cynnig budd-dal newydd yn lle Lwfans Byw i'r Anabl - Taliad Annibyniaeth Bersonol - sy'n galluogi pobl i dynnu'r rhwystrau maent yn wynebu i ddilyn bywydau mwy llawn ac annibynnol. Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn edrych am eich barn i roi gwybod i'n polisi ar gyfer diwygio Lwfans Byw i'r Anabl a chyflwyno asesiad newydd gwrthrychol. Buasem yn hoffi clywed yn arbennig gan sefydliadau anableded a phobl anabl. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd y ddogfen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth cefndir ynglŷn â Lwfans Byw i'r Anabl ac yn esbonio pam rydym eisiau diwygio'r budd-dal. Byddwn yn eglur ynglŷn â beth fydd yn newid, a beth fydd yn aros yr un fath. Rydym yn esbonio'r newidiadau, gofyn cwestiynau i chi ar sut efallai y gallem newid y budd-dal. Mae'r cwestiynau rydym eisiau eu gofyn wedi eu hamlygu'n eglur, ac ar ddiwedd y ddogfen rydym yn gofyn a oes rhywbeth arall rydych eisiau ei ychwanegu.

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar Ragfyr 6 2010. Rydym angen eich ymateb i'r cwestiynau erbyn 14 Chwefror 2011. Mae manylion ar sut i ymateb ym mhennod 6.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, neu'n hoffi derbyn y ddogfen ymgynghori mewn fformat arbennig, er enghraifft, print bras, Braille, awdio, neu Easy Read, cysylltwch â:

DLA Reform Team

1st Floor

Caxton House

Tothill Street

London

SW1H 9NA

Ffôn: 020 7449 7688 –

peiriant ateb yn unig

Ffôn: testun 18001 020 7449 7688 –

peiriant ateb yn unig

Ffacs: 020 7449 5467

Ebost: consultation.dlareform@dwp.gsi.gov.uk

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gefnogi pobl anabl i ddilyn bywydau annibynnol ac actif. Rydym yn adnabod y gall bobl anabl wynebu heriau ychwanegol i ddilyn bywydau annibynnol ac rydym yn ymrwymedig mewn cynnal costau ychwanegol, budd-dal prawf modd i gefnogi pobl anabl.
2. Mae Lwfans Byw i'r Anabl wedi mynd yn ddryslyd a chymhleth. Mae'r llwyth achosion cynyddol a gwariant yn anghynladwy, nid yw'r budd-dal yn cael ei ddeall yn dda ac nid oes proses i wirio bod dyfarniadau yn aros yn gywir. Dyma pam y bydd y Llywodraeth yn diwygio Lwfans Byw i'r Anabl, i greu budd-dal newydd, Taliad Annibyniaeth Bersonol, sydd yn haws i'w ddeall, mwy effeithlon a fydd yn cefnogi pobl anabl sy'n wynebu'r heriau mwyaf i aros yn annibynnol a dilyn bywydau llawn ac actif
3. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r budd-dal newydd yn 2013/14, pan fyddwn yn dechrau ailasesu'r llwyth achosion oedran gwaith (16 i 64 oed). Rydym yn ystyried p'un ai i ailasesu plant a phobl dros 65.
4. Ar hyn o bryd mae Lwfans Byw i'r Anabl yn mesur anghenion 'gofal' a 'symudedd' unigolyn' ac yn defnyddio hyn fel procsi i'r costau ychwanegol a wynebir. Bydd Taliad Annibyniaeth Bersonol yn ystyried effaith sydd gan amhariad neu gyflwr iechyd unigolyn ar eu bywyd dyddiol. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth cefnogaeth ar yr unigolion hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ddydd i ddydd a fydd felly'n wynebu'r costau uwch. Bydd gan Daliad Annibyniaeth Bersonol ddwy elfen. Bydd yr elfen 'Symudedd' yn seiliedig ar allu'r unigolyn i fynd o gwmpas, tra bydd yr elfen 'Byw'n Ddyddiol' yn seiliedig ar allu i gario allan gweithrediadau allweddol angenrheidiol eraill i gymryd rhan mewn bywyd dyddiol
5. I sicrhau fod cefnogaeth yn mynd i'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf, bydd y budd-dal ar gael i bobl gyda chyflwr iechyd neu amhariad tymor hir. Bydd yn rhaid i unigolion fod yn gymwys am y budd-dal am gyfnod o chwe mis a disgwylir iddynt barhau i fod yn gymwys am chwe mis bellach cyn y gellir gwneud dyfarniad.

4 Crynodeb Gweithredol

6. Ar hyn o bryd mae unigolion ar Lwfans Byw i'r Anabl gyda chyflwr iechyd neu amhariadau arbennig gyda hawl awtomatig i gyfraddau penodol o'r budd-dal heb gael asesiad llawn. Rydym yn cynnig ar gyfer Taliad Annibyniaeth Bersonol na fydd hawliadau awtomatig, ar wahân i'r rheolau arbennig ar gyfer pobl sydd yn derfynol sâl. Yn lle hynny, edrychir ar bob achos yn unigol, gan ystyried effaith yr amhariad neu gyflwr iechyd yn hytrach na seilio'r penderfyniad ar y cyflwr iechyd neu amhariad ei hun.
7. Yn allweddol i'r budd-dal bydd asesiad gwrthrychol o anghenion unigol, sydd yn cael ei ddatblygu gennym mewn cydweithrediad gyda grŵp annibynnol o arbenigwyr mewn iechyd, gofal cymdeithasol ac anabledd, yn cynnwys pobl anabl. Bydd yr asesiad newydd yn canolbwyntio ar allu'r unigolyn i gario allan ystod o weithgareddau allweddol angenrheidiol i fywyd dyddiol. Byddwn yn casglu gwybodaeth gan yr unigolyn, yn ogystal â gofalu iechyd proffesiynol ac eraill sy'n gweithio gyda hwy ac yn eu cefnogi. Rydym hefyd yn credu y dylai cyngor gan weithiwr iechyd proffesiynol annibynnol fod yn rhan bwysig o'r broses newydd. Mewn rhan fwyaf o achosion rydym yn rhagweld y bydd hyn yn golygu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda gweithiwr iechyd proffesiynol, yn caniatáu dadansoddiad trwyadl o amgylchiadau unigolyn.
8. Gall defnydd llwyddiannus o gymhorthion ac addasiadau gynyddu gallu unigolyn i arwain, bywyd actif, annibynnol a llawn. Rydym yn credu y dylai Taliad Annibyniaeth Bersonol roi mwy o ystyriaeth i gymhorthion ac addasiadau. Rydym yn ystyried y ffordd orau i gyfrif cymhorthion ac addasiadau yn yr asesiadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu sut maent yn cael eu defnyddio a thalu amdanynt.
9. Rydym yn gwybod efallai bydd anghenion rhai pobl yn newid dros amser, ac weithiau o dipyn i beth nad yw'r cwsmer eu hunain ddim yn sylwi. I sicrhau fod pawb yn derbyn y swm cywir o fudd-dal, rydym yn cynllunio i adolygu holl ddyfarniadau yn gyfnodol. Bydd unigolion yn gyfrifol o hyd am adrodd newid sy'n digwydd rhwng adolygiadau ac yn unol ag ystadegaeth newydd y Llywodraeth ar dwyll a gwallau, bydd cosbau os yw unigolyn yn wybodus yn methu adrodd newid a fyddai yn golygu gostyngiad mewn budd-dal.
10. Rydym eisiau gwneud Taliad Annibyniaeth Bersonol yn fudd-dal mwy actif a galluogi ac rydym yn archwilio ffyrdd i helpu unigolion reoli eu cyflwr iechyd neu amhariad. Er enghraifft, fel rhan o weinyddu'r budd-dal gallem arwyddbostio unigolion i gefnogaeth arall, i sicrhau y bod ganddynt y cyfle i drafod eu cyflwr iechyd neu amhariad gyda swyddog proffesiynol addas.
11. Yn ogystal â darparu cefnogaeth ariannol, mae Lwfans Byw i'r Anabl ar hyn o bryd yn rhoi hawl neu 'basbort' i unigolyn i help a chefnogaeth arall. Rydym yn sylweddoli pwysigrwydd y nodwedd hon a bydd yn ei gymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu ein diwygiadau. Yn ychwanegol, byddwn yn ystyried sut y bydd y budd-dal yn rhyngweithio gyda ffurfiau eraill o gefnogaeth, er enghraifft gofal cymdeithasol oedolyn, ac yn archwilio p'un os yw'n bosibl i rannu gwybodaeth ar y cam asesu a gwneud i ffwrdd ag unrhyw ardal o orymylu.
12. Bydd ymatebion o'r ymgynghoriad hwn yn rhoi gwybod am ail ddeddfwriaeth ar y cynllun manwl o'r budd-dal, yn cynnwys anghenion i'r asesiad newydd. Byddem yn hoffi clywed gan unrhyw un sydd â diddordeb, yn arbennig pobl anabl a sefydliadau anabledd.

(h) Hawlfraint y Goron 2010

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

www.dwp.gov.uk